Comisiwn
**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

**Equality and Human Rights** Commission

Cymdogaeth, cymuned a hunaniaeth

# Pwy ydych chi'n ei weld?

Byw gyda'n gilydd yng Nghymru

**Canfyddiadau allweddol**

- Mae tystiolaeth o ymdeimlad cryf o berthyn i'n cymdogaethau, ardaloedd lleol, Cymru a Phrydain.
- Mae'r cyswllt â hunaniaeth genedlaethol ychydig yn gryfach na'r cyswllt â hunaniaeth leol.
- **Nid** oes gan bobl yng Nghymru farn bendant ynglŷn â byw mewn ardal lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn debyg.
- Byddai cyfran sylweddol o bobl yng Nghymru yn pryderu pe bai mwy o bobl o Ddwyrain Ewrop a Mwslimiaid yn symud i Gymru. Y themâu allweddol oedd pryderon ynglŷn â phwysau economaidd, diogelwch a phryder ynglŷn ag integreiddio.

# Cymdogaeth, cymuned a hunaniaeth

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canfyddiadau agweddau tuag at gymdogaeth, cymuned a hunaniaeth o'r arolwg o agweddau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Mae'n ystyried canfyddiadau o hunaniaeth genedlaethol a pha mor gryf y mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w cymdogaeth, eu hardal leol, Cymru a Phrydain. Mae'n ystyried hefyd a fyddai pobl yn pryderu pe bai mwy o bobl o wahanol grwpiau yn symud i Gymru.

## Hunaniaeth genedlaethol

Y tair hunaniaeth fwyaf cyffredin a ddewisir oedd Cymreig (58 y cant), Prydeinig (31 y cant) a Seisnig (12 y cant). Ni soniwyd am hunaniaeth genedlaethol arall gan fwy nag 1 y cant o'r sampl.

**Ffigur 6.1 Beth yw eich hunaniaeth genedlaethol yn eich barn chi?**




Sylfaen: Pob ymatebwr (heb eu pwysoli: 1,589, wedi'u pwysoli: 1,589)

Drwy ddadansoddi'r cwestiwn hwn yn ôl rhanbarthau etholaethol yng Nghymru gwelir rhai canfyddiadau diddorol. Mae'n amlwg mai pobl yn Nwyrain De Cymru a Gorllewin De Cymru oedd fwyaf tebygol o ystyried eu hunain yn Gymry (66 y cant a 72 y cant yn y drefn honno). Yn yr ardaloedd hyn hefyd roedd pobl yn llawer llai tebygol o ystyried eu hunain yn Saeson. Dim ond 8 y cant a nododd eu hunaniaeth yn y ffordd hon yn y ddau ranbarth hyn o gymharu â 17 y cant yng Ngogledd Cymru a 16 y cant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.



## Ymdeimlad o berthyn

Roedd oedolion yng Nghymru yn fwy tueddol o deimlo eu bod yn perthyn yn gryf i'r opsiynau cenedlaethol nag i'w hardal leol neu eu cymdogaeth leol.

- Dywedodd 87 y cant eu bod yn perthyn yn gryf i Brydain, a dywedodd 52 y cant eu bod yn perthyn 'yn gryf iawn'
- Dywedodd 84 y cant eu bod yn perthyn yn gryf i Gymru a dywedodd 54 y cant eu bod yn perthyn 'yn gryf iawn'
- Teimlai 80 y cant eu bod yn perthyn yn gryf i'w cymdogaeth leol, (41 y cant yn gryf iawn)
- Teimlai 79 y cant eu bod yn perthyn yn gryf i'w hardal leol, (39 y cant yn gryf iawn)

**Ffigur 6.2 Pa mor gryf y teimlwch eich bod yn perthyn i…?**




Sylfaen: Pob ymatebwr (heb eu pwysoli: 1,589, wedi'u pwysoli: 1,589). 'Ni ddangosir 'ddim yn gwybod' a 'wedi gwrthod

Yn ôl dadansoddiad o is-grwpiau roedd hunaniaeth, waeth ble roeddent yn byw, yn gryfach ymhlith pobl hŷn, y rhai o gefndir gwyn a'r rhai a ddisgrifiodd eu hunain fel Cristnogion, Roedd hunaniaeth leol yn gryfach ymhlith siaradwyr Cymraeg a'r rhai a ddisgrifiodd eu hunain yn Gymry. Ceir rhagor o fanylion isod a chrynodeb yn nhabl 6.2.

## Y gymdogaeth leol

- Roedd ymdeimlad o berthyn i'r gymdogaeth leol yn cynyddu gydag oedran: teimlai 71 y cant o bobl 16-34 oed eu bod yn perthyn yn gryf i'w cymdogaeth leol, o gymharu â 79 y cant o bobl 35-54 oed, 86 y cant o bobl 55-64 oed ac 87 y cant o bobl dros 65
- Teimlai 8 o bob 10 (80 y cant) o ymatebwyr a oedd yn wyn Prydeinig neu'n wyn Cymreig eu bod yn perthyn yn gryf i'w hardal leol. Roedd hyn dipyn yn uwch nag ydoedd ymhlith oedolion nad oeddent yn wyn (63 y cant)
- Teimlai 82 y cant o Gristnogion eu bod yn perthyn yn gryf – cyfran lawer yn uwch na'r rhai o grefyddau eraill a'r rhai heb grefydd (71 y cant a 75 y cant yn y drefn honno)
- Pobl yng Nghanol De Cymru oedd leiaf tebygol o ddweud eu bod yn perthyn i'w hardal leol (69 y cant). Roedd hyn yn cymharu ag 80 y cant ar gyfartaledd.
- Teimlai ychydig o dan naw o bob deg (87 y cant) o'r rhai yr oedd Cymraeg yn famiaith iddynt eu bod yn perthyn yn gryf i'w hardal leol. Gellir cymharu hyn â 79 y cant o bobl yr oedd Saesneg yn brif iaith iddynt. Yn yr un modd, roedd pobl a oedd ystyried eu hunain yn Gymry yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn perthyn yn gryf i'w hardal leol na'r rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn Brydeinwyr, yn Saeson neu'nrhywbeth arall (85 y cant o gymharu â 76 y cant, 70 y cant a 61 y cant yn y drefn honno)
- Roedd statws teuluol yn effeithio ar y graddau yr oedd pobl yn teimlo eu bod yn perthyn. Roedd oedolion a oedd yn byw mewn cartrefi sengl - gyda neu heb blant - yn llai tebygol o deimlo eu bod yn perthyn *yn gryf* na'r rhai a oedd yn byw fel pâr (75 y cant neu'n is o gymharu ag 84 y cant o'r rhai a oedd yn byw fel pâr â phlant ac 84 y cant o'r rhai a oedd yn byw fel pâr heb blant). Y casgliad yw y gall ynysu ymhlith oedolion effeithio ar ymdeimlad o berthyn i gymdogaeth

## Yr ardal leol

- Roedd pobl hŷn yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn perthyn yn gryf. Dywedodd 86 y cant o bobl 55 oed neu'n hŷn eu bod yn perthyn yn gryf. Yn wir dywedodd 55 y cant o bobl 65 oed neu'n hŷn eu bod eu hymdeimlad o berthyn 'yn gryf iawn'. Mewn cymhariaeth, teimlai 77 y cant o bobl 35-54 oed a 71 y cant o bobl 16-34 oed eu bod yn perthyn yn gryf
- Roedd gwahaniaethau yn ôl cefndir ethnig yn debyg iawn i'r rhai o ran y gymdogaeth leol; dywedodd 80 y cant o bobl wyn Brydeinig a gwyn Cymreig eu bod yn perthyn yn gryf o gymharu â 64 y cant o oedolion nad oeddent yn wyn.

- Roedd pobl a oedd yn byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (88 y cant) yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn perthyn yn gryf i'w hardal leol na'r rhai a oedd yn byw yng Nghanol De Cymru (66 y cant).
- Teimlai 87 y cant o'r rhai yr oedd Cymraeg yn famiaith iddynt eu bod yn perthyn yn gryf i'w hardal leol. Dywedodd 79 y cant o bobl yr oedd Saesneg yn famiaith iddynt eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn yn gryf. Yn yr un modd, dywedodd 84 y cant o bobl a ddywedodd eu bod yn Gymry eu bod yn perthyn yn gryf i'w hardal leol o gymharu â 74 y cant o'r rhai a ddywedodd eu bod yn Brydeinwyr neu'n Saeson

**Cymru**

- Teimlai ychydig o dan naw o bob deg o bobl 55-64 oed neu 65 a throsodd eu bod yn perthyn yn gryf i Gymru (87 y cant ac 88 y cant yn y drefn honno). Roedd hyn dipyn yn is nag ydoedd ymhlith pobl 16-34 oed (79 y cant)
- Dywedodd 85 y cant o bobl wyn Brydeinig a gwyn Cymreig eu bod yn perthyn yn gryf i Gymru o gymharu â 74 y cant o oedolion nad oeddent yn wyn
- Roedd Cristnogion yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn perthyn yn gryf i Gymru na'r rhai heb grefydd (86 y cant o gymharu ag 80 y cant)
- Teimlai bron bawb a siaradai Gymraeg yn bennaf eu bod yn perthyn yn gryf i Gymru (98 y cant). Ymhlith y rhai a siaradai Saesneg yn bennaf dywedodd 83 y cant hyn. Yn yr un modd, dywedodd 95 y cant o bobl a ddywedodd eu bod yn Gymry eu bod yn perthyn yn gryf i Gymru o gymharu â 78 y cant neu lai o'r rhai a ddywedodd eu bod yn Brydeinwyr neu'n perthyn i genedl arall.

**Prydain**

- Teimlai tua naw o bob deg o bobl dros 65 oed (93 y cant) a 90 y cant o bobl 55-64 oed y cant eu bod yn perthyn yn gryf i Brydain. Fel yn achos lleoliadau eraill, roedd pobl iau yn llawer llai tebygol o ddweud hyn (84 y cant o bobl 35-54 oed ac 82 y cant o bobl 16-34 oed)
- Dywedodd 87 y cant o bobl wyn Brydeinig a gwyn Cymreig eu bod yn perthyn yn gryf i Brydain o gymharu â 71 y cant o oedolion o gefndir ethnig gwahanol
- Roedd Cristnogion yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn perthyn yn gryf i Brydain na'r rhai heb grefydd (88 y cant o gymharu ag 82 y cant)
- Teimlai 88 y cant o'r rhai a siaradodd Saesneg yn bennaf eu bod yn perthyn yn gryf i Brydain tra teimlai 71 y cant o siaradwyr Cymraeg hyn

## Tabl 6.2 Canran yn dweud eu bod yn perthyn i bob lleoliad

| | Sylfaen heb ei phwysoli, n= | Sylfaen wedi'i phwysoli, n= | Y gymdogaeth leol (%) | Yr ardal leol (%) | Cymru (%) | Prydain (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | *1,589* | *1,589* | 80 | 79 | 84 | 87 |
| 16-34 | *385* | *413* | 71 | 71 | 79 | 82 |
| 35-54 | *598* | *581* | 79 | 77 | 85 | 84 |
| 55-64 | *262* | *248* | 86 | 86 | 87 | 90 |
| 65+ | *344* | *347* | 87 | 86 | 88 | 93 |
| Gwyn Prydeinig/Cymreig | *1,438* | *1,555* | 80 | 80 | 85 | 87 |
| Arall | *151* | *34* | 63 | 64 | 74 | 71 |
| Cristion | *1,123* | *1,144* | 82 | 80 | 86 | 88 |
| Crefydd arall | *103* | *56* | 71 | 71 | 80 | 83 |
| Dim crefydd | *349* | *375* | 75 | 77 | 80 | 82 |
| Crefydd: Canolbarth a Gorllewin Cymru | *290* | *292* | 86 | 88 | 85 | 90 |
| Gogledd Cymru | *336* | *344* | 85 | 83 | 77 | 85 |
| Canol De Cymru | *366* | *348* | 69 | 66 | 84 | 86 |
| Dwyrain De Cymru | *324* | *327* | 80 | 80 | 86 | 90 |
| Gorllewin De Cymru | *273* | *278* | 81 | 81 | 91 | 83 |
| Iaith gyntaf: Saesneg | *1,401* | *1,438* | 79 | 79 | 83 | 88 |
| Cymraeg | *126* | *133* | 87 | 87 | 98 | 71 |
| Hunaniaeth genedlaethol: Cymry | *884* | *928* | 85 | 84 | 95 | 84 |
| Saeson | *179* | *189* | 70 | 74 | 52 | 91 |
| Prydeinwyr | *494* | *491* | 76 | 74 | 78 | 93 |
| Arall | ***97* | *47* | 61 | 68 | 63 | 67 |

Noder: ** yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100)

### A fyddai'n well gan oedolion yng Nghymru fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl?

Dywedodd chwech o bob deg (63 y cant) nad oes ganddynt farn bendant o ran cyfansoddiad eu hardal leol. I'r rhai a fynegodd farn dywedodd 22% y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal lle roedd y

rhan fwyaf o bobl yn debyg iddynt hwy eu hunain a dywedodd 15% y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl.

**Ffigur 6.4 A fyddai'n well gennych fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl neu lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn debyg?**




Sylfaen: Pob ymatebwr (heb eu pwysoli: 1,589, wedi'u pwysoli: 1,589).

Yn gyffredinol roedd ymatebwyr hŷn, ymatebwyr gwyn a'r rhai mewn graddau cymdeithasol is yn fwy tebygol o ddweud y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn debyg iddynt hwy eu hunain:

- Er i draean (33 y cant) o bobl dros 65 oed ddweud y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn debyg iddynt hwy eu hunain dim ond 13 (y cant) o bobl 16-34 oed a ddywedodd hynny.
- Roedd ymatebwyr gwyn Prydeinig a Chymreig yn llawer mwy tebygol o ddweud y byddai'n well ganddynt fyw gyda phobl sy'n debyg iddynt hwy eu hunain nag ymatebwyr o gefndir ethnig arall (22 y cant o gymharu â 10 y cant)
- Er i chwarter o ymatebwyr yng ngraddau cymdeithasol C2 a DE ddweud y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn debyg iddynt hwy eu hunain (25 y cant a 24 y cant yn y drefn honno). Mae hyn dipyn yn uwch nag ydyw ymhlith graddau AB (17%)

**A yw oedolion yng Nghymru yn pryderu am grwpiau gwahanol yn symud i Gymru?**

Gofynnwyd i bobl pa mor bryderus fyddent pe bai mwy o bobl o gefndiroedd penodol yn symud i Gymru. Y grwpiau yr holwyd yn eu cylch oedd pobl o Ddwyrain Ewrop, Mwslimiaid, pobl Dduon ac Asiaidd a Saeson.

Ar y cyfan, roedd y mwyafrif o bobl yn anghytuno y byddent yn bryderus pe bai mwy o bobl o'r grwpiau hyn yn dod i fyw yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd rhwng 16 y cant a 32 y cant *yn* bryderus. Roedd yn amlwg bod rhai pobl yn fwy pryderus ynglŷn â'r syniad o fwy o fewnfudo o blith rhai o'r grwpiau hyn nag eraill.

Y ddau grŵp yr oedd pobl yn fwyaf pryderus yn eu cylch oedd pobl o Ddwyrain Ewrop (32 y cant) a Mwslimiaid (30 y cant) – dau grŵp sydd wedi cael cryn sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar. Roedd llai o bobl yn bryderus ynglŷn â'r syniad o fwy o bobl Dduon ac Asiaidd (25 y cant) neu Saeson (16 y cant) yn dod i fyw yng Nghymru. Dengys Ffigur 6.3 yr holl ymatebion i bob un o'r cwestiynau hyn.

**Ffigur 6.3 I ba raddau y cytunwch neu yr anghytunwch â'r datganiad "Byddwn yn teimlo'n bryderus pe bai mwy o'r grwpiau canlynol yn dod i fyw yng Nghymru"?**




Sylfaen: Pob ymatebwr (heb eu pwysoli: 1,589, wedi'u pwysoli: 1,589).

Roedd grwpiau penodol yn fwy tebygol o deimlo'n bryderus ynglŷn â'r syniad o Fwslimiaid, pobl o Ddwyrain Ewrop a phobl Dduon ac Asiaidd yn symud i Gymru: pobl hŷn, pobl mewn graddau cymdeithasol is, pobl wyn, Cristnogion, pobl yng Ngorllewin De Cymru ac, fel y disgwylid, y rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda phobl sy'n debyg iddynt hwy eu hunain. Roedd canfyddiadau rhanbarth Gorllewin De Cymru yn ddiddorol iawn gan mai hwn oedd y rhanbarth lle roedd pobl fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn Gymry.

Roedd y grwpiau a oedd fwy tebygol o fod yn bryderus ynglŷn â Saeson yn symud i mewn i Gymru yn wahanol iawn. Roeddent yn byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, yn siaradwyr Cymraeg, ac yn gysylltiedig â hyn, yn galw eu hunain yn Gymry. Nodir manylion pellach yn yr adrannau nesaf.

### Grwpiau a fyddai'n bryderus pe bai mwy o Fwslimiaid yn dod i fyw yng Nghymru

- Cytunodd ychydig o dan ddau o bob pump o bobl (38 y cant) 65 oed neu'n hŷn y byddent yn teimlo'n bryderus pe bai mwy o Fwslimiaid yn dod i fyw yng Nghymru, ac roedd hyn dipyn yn uwch nag ydoedd

ymhlith pobl 16-34 oed a 35-54 oed (25 y cant a 27 y cant yn y drefn honno)

- Cytunodd mwy na thraean o oedolion C2[1] a DE[2] (37 y cant a 35 y cant yn y drefn honno) y byddent yn teimlo'n bryderus pe bai mwy o Fwslimiaid yn dod i fyw yng Nghymru o gymharu â chwarter o oedolion AB[3] a chytunodd oedolion C1[4] (25 y cant a 26 y cant yn y drefn honno). Byddai 30 y cant o bobl wyn Brydeinig a gwyn Cymreig yn teimlo'n bryderus ynglŷn â'r syniad o fwy o Fwslimiaid yn dod i fyw yng Nghymru o gymharu â 14 y cant o oedolion o gefndir ethnig gwahanol
- Cytunodd traean (33 y cant) o Gristnogion y byddent yn teimlo'n bryderus ynglŷn â hyn. Roedd y ganran hon dipyn yn uwch nag ydoedd ymhlith y rhai heb grefydd (20 y cant)
- Cytunodd 37 y cant o bobl yng Ngorllewin De Cymru â'r datganiad. Cytunodd cryn nifer yn llai o bobl yn Nwyrain De Cymru (25 y cant), Canol De Cymru (28 y cant) a Chanolbarth a Gorllewin Cymru (29 y cant)
- Cytunodd dros hanner y bobl (55 y cant) a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn debyg iddynt hwy eu hunain y byddent yn teimlo'n bryderus ynglŷn â Mwslimiaid yn symud i Gymru. Dim ond 15 y cant o'r rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl (a 24 y cant o'r rhai nad oedd ganddynt farn bendant)
- Roedd oedolion a oedd byw fel pâr, gyda neu heb blant, yn fwy tebygol o deimlo'n bryderus ynglŷn â'r syniad o fwy o Fwslemiaid yn symud i Gymru na rhieni sengl.

**Grwpiau a fyddai'n bryderus pe bai mwy o bobl o Ddwyrain Ewrop yn dod i fyw yng Nghymru**

- Cytunodd 36 y cant o bobl 65 oed neu'n hŷn y byddent yn teimlo'n bryderus pe bai mwy o bobl o Ddwyrain Ewrop yn dod i fyw yng Nghymru; roedd hyn dipyn yn is nag ydoedd ymhlith pobl 16-34 oed (28 y cant)
- Cytunodd tua dau o bob pump o bobl yn y graddau cymdeithasol is y byddent yn teimlo'n bryderus pe bai mwy o bobl o Ddwyrain Ewrop yn dod i fyw yng Nghymru (40 y cant o oedolion C2 a 37 y cant o oedolion DE). Cytunodd 29 y cant o oedolion C1 a 27 y cant o oedolion AB
- Roedd pobl a oedd yn byw yng Ngorllewin De Cymru (36 y cant), Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru (35 y cant) yn fwy

[1] Cefndiroedd goruchwylio, clercol, is-reoli/gweinyddol/proffesiynol
[2] Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft neu sy'n cael budd-daliadau'r wladwriaeth/sy'n ddi-waith
[3] Cartrefi sy'n cynnwys deiliaid swyddi rheoli/gweinyddol/proffesiynol uwch a chanolraddol
[4] Cartrefi sy'n cynnwys deiliaid swyddi goruchwylio, clercol, is-reoli/gweinyddol/proffesiynol

tebygol o gytuno y byddent yn bryderus na phobl yn rhanbarth Canol De Cymru (26 y cant).

- Cytunodd 55 y cant o bobl a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn debyg iddynt hwy y byddai'n bryderus ynglŷn â phobl o Ddwyrain Ewrop yn symud i Gymru. Dim ond 18 y cant o'r rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl a deimlai y byddent yn bryderus

**Grwpiau a fyddai'n bryderus pe bai mwy o bobl Dduon ac Asiaidd yn dod i fyw yng Nghymru**

- Roedd pobl hŷn yn fwy tebygl o gytuno y byddent yn bryderus: 36 y cant o bobl 65 oed o gymharu â 28 y cant o bobl 55-64 oed, 23 y cant o bobl 35-54 oed ac 19 y cant o bobl 16-34 oed
- Cytunodd thua thraen o oedolion C2 a DE (31 y cant a 33 y cant yn y drefn honno) o gymharu ag un o bob pump o oedolion AB ac C1 (20 y cant yr un)
- Cytunodd chwarter (25 y cant) o bobl wyn Brydeinig a Chymreig y byddent yn bryderus pe bai mwy o bobl Dduon ac Asiaidd yn symud i Gymru. o gymharu â 13 y cant o bobl o gefndiroedd ethnig eraill
- Roedd y nifer fwyaf a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn i'w gweld yng Ngorllewin De Cymru (32 y cant) a'r nifer isaf yng Nghanol De Cymru (21 y cant)
- Ymhlith y rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda phobl debyg iddynt hwy eu hunain dywedodd hanner (50 y cant) y byddent yn teimlo'n bryderus pe bai mwy o bobl Dduon ac Asiaidd yn symud i Gymru. Roedd hyn yn cymharu ag 21 y cant o bobl heb farn bendant ac 8 y cant o bobl y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl.

## Tabl 6.2 Canran yn dweud y byddent yn teimlo'n bryderus pe bai mwy o bobl o'r grwpiau hyn yn dod i fyw yng Nghymru

| | *Sylfaen heb ei phwysoli, n=* | *Sylfaen wedi'i phwysoli, n=* | *Mwslimiaid (%)* | *Pobl o Ddwyrain Ewrop (%)* | *Pob Dduon ac Asiaidd (%)* |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | ***1,589*** | ***1,589*** | **30** | **32** | **25** |
| 16-34 | *385* | *413* | 25 | 28 | 19 |
| 35-54 | *598* | *581* | 27 | 33 | 23 |
| 55-64 | *262* | *248* | 32 | 33 | 28 |
| 65+ | *344* | *347* | 38 | 36 | 36 |
| Gwyn Prydeinig / Cymreig | *1,438* | *1,555* | 30 | 33 | 25 |
| Arall | *151* | *34* | 14 | 25 | 13 |
| Cristion | *1,123* | *1,144* | 33 | 35 | 29 |
| Crefydd arall | *103* | *56* | 26 | 29 | 21 |
| Dim crefydd | *349* | *375* | 20 | 24 | 16 |
| AB | *382* | *376* | 25 | 27 | 20 |
| C1 | *533* | *538* | 26 | 29 | 20 |
| C2 | *242* | *241* | 37 | 40 | 31 |
| DE | *428* | *431* | 35 | 37 | 33 |
| Crefydd: Canolbarth a Gorllewin Cymru | *290* | *292* | 29 | 35 | 26 |
| Gogledd Cymru | *336* | *344* | 31 | 35 | 27 |
| Canol De Cymru | *366* | *348* | 28 | 26 | 21 |
| Dwyrain De Cymru | *324* | *327* | 25 | 31 | 22 |
| Gorllewin De Cymru | *273* | *278* | 37 | 36 | 32 |
| Byddai'n well ganddynt fyw gyda: Mathau gwahanol | *236* | *231* | 15 | 18 | 8 |
| Pobl debyg | *337* | *342* | 55 | 55 | 50 |
| Dim barn bendant | *1,005* | *1,005* | 24 | 28 | 21 |

## Grwpiau a fyddai'n bryderus pe bai mwy o bobl o Loegr yn dod i fyw yng Nghymru

- Cytunodd tua chwarter y bobl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (23 y cant) y byddent yn teimlo'n bryderus pe bai mwy o Saeson yn dod i fyw yng Nghymru. Roedd hyn dipyn yn uwch nag yng Nghanol

De Cymru (12 y cant), Dwyrain De Cymru (13 y cant) a Gogledd Cymru (15 y cant)

- Cytunodd dau o bob pump o bobl (40 y cant) yr oedd Cymraeg yn famiaith iddynt y byddent yn bryderus ynglŷn â hyn. Roedd hyn yn uwch na'r gyfran o'r grŵp hwn a gytunodd y byddent yn bryderus pe bai mwy o bobl Dduon ac Asiaidd neu Fwslimiaid yn symud i Gymru (29 y cant a 30 y cant yn y drefn honno)
- Roedd pobl a oedd ystyried eu hunain yn Gymry yn llawer mwy tebygol o gytuno y byddent yn bryderus ynglŷn â mwy o Saeson yn symud i Gymru na'r rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn Saeson neu'n Brydeinwyr (21 y cant o gymharu â 6 y cant a 10 y cant yn y drefn honno)
- Cytunodd 23 y cant o bobl a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda phobl a oedd yn debyg iddynt hwy eu hunain â'r datganiad hwn o gymharu ag 13 y cant o bobl yr oedd yn well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl a 14 y cant nad oedd ganddynt farn bendant ynglŷn â'r mater

**Tabl 6.3 Canran a ddywedodd y byddent yn teimlo'n bryderus pe bai mwy o Saeson yn dod i fyw yng Nghymru**

| | *Sylfaen heb ei phwysoli, n=* | *Sylfaen wedi'i phwysoli, n=* | *% yn cytuno* |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | ***1,589*** | ***1,589*** | **16** |
| Crefydd: Canolbarth a Gorllewin Cymru | *290* | *292* | 23 |
| Gogledd Cymru | *336* | *344* | 15 |
| Canol De Cymru | *366* | *348* | 12 |
| Dwyrain De Cymru | *324* | *327* | 13 |
| Gorllewin De Cymru | *273* | *278* | 18 |
| Prif iaith: Cymraeg | *126* | *133* | 40 |
| Saesneg | *1,401* | *1,438* | 14 |
| Hunaniaeth genedlaethol: Cymry | *884* | *928* | 21 |
| Saeson | *179* | *189* | 6 |
| Prydeinwyr | *494* | *491* | 10 |
| Byddai'n well ganddynt fyw gyda: Mathau gwahanol | *236* | *231* | 13 |
| Pobl debyg | *337* | *342* | 23 |
| Dim barn bendant | *1,005* | *1,005* | 14 |

## Pam mae oedolion yng Nghymru yn pryderu ynglŷn â grwpiau gwahanol yn symud i Gymru?

Os cytunodd ymatebwr y byddent yn pryderu y byddai grwpiau penodol yn mewnfudo gofynnwyd cwestiwn dilynol. Cwestiwn penagored oedd hwn a chafodd ymatebion eu codio er mwyn dangos patrwm ymateb.

Codwyd yr un pryderon ynglŷn ag integreiddio, mewnfudo a'r canfyddiad bod gwahanol grwpiau'n cael eu trin yn ffafriol. Y themâu allweddol oedd:

- Economaidd: yn enwedig o ran mewnfudwyr o Ddwyrain Ewrop ac o Loegr
- Diogelwch: mewn perthynas â mewnfudwyr Mwslimaidd yn unig
- Integreiddio a cholli hunaniaeth Gymreig: yn enwedig o ran mewnfudwyr Mwslimaidd ac o Ddwyrain Ewrop a Lloegr

### Pobl o Ddwyrain Ewrop

Ymhlith y rhai a gytunodd y byddent yn bryderus pe bai mwy o bobl o Ddwyrain Ewrop yn symud i Gymru, roedd yn amlwg mai pryderon economaidd oedd wrth wraidd yr ymatebion. Y prif reswm dros bryderon oedd y canfyddiad bod pobl o Ddwyrain Ewrop 'yn cymryd y swyddi i gyd yn yr ardal' (35 y cant). Teimlai 9 y cant fod pobl o Ddwyrain Ewrop yn 'llafur rhad ac yn tanseilio lefel cyflogau', tra bod 7 y cant yn sôn am straen ar wasanaethau cyhoeddus neu bwysau o ran tai.

Soniwyd hefyd am bryderon mwy cyffredinol ynglŷn ag integreiddio a cholli hunaniaeth Gymreig. Dywedodd 11 y cant 'fod gormod o bobl o Ddwyrain Ewrop yma yn barod'. Dywedodd 10 y cant fod 'gormod o fewnfudwyr/angen rheolaethau tynnach', tra soniodd 5 y cant am 'rydym yn colli ein hunaniaeth genedlaethol/diwylliant/iaith Gymraeg'. Dywedodd canran debyg 'nad ydynt yn cymysgu/integreiddio'n dda'.

## Ffigur 6.4 Rhesymau dros deimlo'n bryderus pe bai mwy o bobl o Ddwyrain Ewrop yn dod i fyw yng Nghymru




Sylfaen: Pawb a fyddai'n bryderus pe bai mwy o bobl o Ddwyrain Ewrop yn dod i fyw yng Nghymru (Heb ei bwysoli 510; Wedi'u pwysoli 514). Cyfeiriadau o 5 y cant neu fwy

## Mwslimiaid

O gofio'r sylw diweddar yn y wasg, nid yw'n fawr o syndod bod mewnfudwyr Mwslimaidd wedi creu ymateb emosiynol. Datgelodd y sylwadau ddau bryder allweddol. Yn gyntaf, diogelwch fel y rheswm a nodwyd amlaf oedd bod 'Mwslimiaid am orfodi eu credoau, gwladwriaeth Fwslimaidd neu gymryd drosodd' (13 y cant). Soniodd bron un o bob deg (8 y cant) bryderon cyffredinol ynglŷn â therfysgaeth a dywedodd 5 y cant 'y byddent yn niweidiol/yn achosi trafferth/yn fygythiad'.

Pryder arall oedd integreiddio. Dywedodd dros un o bob deg 'nad ydynt yn cymysgu nac yn integreiddio'n dda'. (12 y cant). Soniodd 5 y cant 'mae ganddynt grefydd wahanol/gwlad Gristnogol yw hon' ac 'mae ganddynt ddiwylliant/ffordd o feddwl gwahanol'.

Roedd y rhesymau hyn yn wahanol i'r rhai a roddwyd mewn perthynas â phryderon ynglŷn â mewnfudo o Ddwyrain Ewrop. Nid oedd mewnfudwyr Mwslimaidd yn cael eu hystyried yn fygythiad economaidd i'r un graddau, ond roedd integreiddio yn fwy o broblem. Mae'n werth nodi na soniodd oedolion yng Nghymru am faterion diogelwch mewn perthynas â mewnfudwyr o Ddwyrain Ewrop.

**Ffigur 6.5 Rhesymau dros deimlo'n bryderus pe bai mwy o Fwslimiaid yn dod i fyw yng Nghymru**




Sylfaen: Pawb a fyddai'n bryderus pe bai mwy o bobl o Ddwyrain Ewrop yn dod i fyw yng Nghymru (heb ei bwysoli 462; wedi'u pwysoli 473). Cyfeiriadau o 5 y cant neu fwy

## Pobl Dduon ac Asiaidd

Roedd y rhesymau amlycaf a roddwyd dros deimlo'n bryderus pe bai mwy o bobl Dduon ac Asiaidd yn dod i fyw yng Nghymru yn ymwneud â phrinder swyddi (15 y cant) a theimlad cyffredinol bod gormod o fewnfudwyr yma yn barod (14 y cant). Nid oedd pryderon economaidd mor gryf â'r rhai a fynegwyd mewn perthynas ag ymfudwyr o Ddwyrain

Ewrop lle cyfeiriodd 35 y cant at 'brinder swyddi/maen nhw'n cymryd y swyddi i gyd'.

Hefyd roedd pryderon o ran integreiddio: teimlai 12 y cant fod 'gormod yma yn barod', teimlai 9 y cant nad yw'r grŵp hwn yn cymysgu nac yn integreiddio'n dda a theimlai 8 y cant fod ganddynt 'ddiwydiant/ ffordd o feddwl gwahanol'.

**Ffigur 6.6 Rhesymau dros deimlo'n bryderus pe bai mwy o bobl Dduon ac Asiaidd yn dod i fyw yng Nghymru**




Sylfaen: Grwpiau a fyddai'n bryderus pe bai mwy o bobl Dduon ac Asiaidd yn dod i fyw yng Nghymru 394; Wedi'u pwysoli 400). Cyfeiriadau o 5 y cant neu fwy

## Saeson

Y rheswm a nodwyd amlaf dros bryderu ynglŷn â mwy o Saeson yn symud i Gymru oedd bod pobl yn pryderu am 'golli eu hunaniaeth genedlaethol, diwylliant neu'r iaith Gymraeg' (19 y cant). Er i'r rheswm hwn gael ei grybwyll mewn perthynas â grwpiau eraill, ni fynegwyd y teimlad mor 'gryf' a chyfeiriwyd ato gan 6 y cant neu lai ym mhob achos.

Rheswm pwysig arall oedd pwysau o ran tai. Pryderai 13 y cant am 'brinder tai', pryderai 9 y cant am brisiau tai yn codi tra cwynodd 7 y cant 'maen nhw ond yn prynu tai haf yma'.

Rhesymau eraill dros bryderu am Saeson yn symud i Gymru oedd y byddai 'prinder swyddi am eu bod yn cymryd yr holl swyddi' (12 y cant), 'maent am orfodi eu diwylliant eu hunain' (8 y cant) ac 'nid ydynt yn hoffi'r Saeson neu nid yw'r Saeson a'r Cymry yn cyd-dynnu' (8 y cant).

**Ffigur 6.7 Pam y byddai pobl yn teimlo'n bryderus pe bai mwy o Saeson yn dod i fyw yng Nghymru?**




Sylfaen: Pawb a fyddai'n bryderus pe bai mwy o Saeson yn dod i fyw yng Nghymru (Heb ei bwysoli 246; Wedi'u pwysoli 252). Cyfeiriadau o 5 y cant neu fwy

## Crynodeb

Dengys y canfyddiadau fod y mwyafrif o bobl yng Nghymru yn teimlo eu bod yn perthyn i Brydain, Cymru, eu cymdogaeth a'u hardal leol. Awgryma'r dystiolaeth fod hunaniaeth genedlaethol ychydig yn gryfach na hunaniaeth leol. Roedd pobl hŷn, pobl wyn a Christnogion yn fwy tebygol o fynegi'r ymdeimlad mwyaf o berthyn.

Roedd y mwyafrif o bobl yn anghytuno y byddent yn teimlo'n bryderus pe bai mwy o bobl o grwpiau ethnig a lleiafrifoedd gwahanol yn dod i fyw yng Nghymru. Fodd bynnag roedd lleiafrif sylweddol yn pryderu am fewnfudo.

Roedd y pryderon ynglŷn â mewnfudo yn dibynnu ar y grŵp dan sylw. Cododd mewnfudwyr o Ddwyrain Ewrop bryderon ynglŷn â phwysau economaidd. Roedd diogelwch yn fater allweddol o ran mewnfudwyr Mwslimaidd, yn ogystal â phryderon penodol ynglŷn ag integreiddio. O ran pobl Dduon ac Asiaidd, codwyd pryderon ynglŷn â swyddi a gormod o fewnfudo. Roedd y rhai a oedd yn pryderu am fewnfudwyr o Loegr yn pryderu ynglŷn â cholli hunaniaeth a phrisiau tai yn codi.

## Nodiadau

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwil ar gael ar dudalennau'r Comisiwn yng Nghrymu ar ein gwefan yn:

www.equalityhumanrights.com

## Ynglŷn â'r arolwg o agweddau

Comisiynodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru GfK NOP i ymgymryd ag ymchwil i agweddau pobl tuag at wahaniaethu, hawliau dynol a chydlyniant cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn ceisio archwilio agweddau pobl tuag at wahaniaethu o ran rhyw, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, dynion hoyw a lesbiaid, materion o ran oedran, crefydd a ffydd a hefyd y Gymraeg. Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi mesur sylfaenol o agweddau y gellid eu mesur eto yn y dyfodol.

Roedd y sampl yn cynnwys 1,589 o ymatebwyr. Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn. Cafodd pob ymatebwr y dewis o gwblhau'r arolwg yn Gymraeg. Ymdriniwyd â materion o ran mynediad drwy gynnig y cyfle i ddefnyddio gwasanaeth TypeTalk i'r rhai â nam ar y clyw. I'r rhai a gafodd anhawster i gyfathrebu yn Saesneg cynigiwyd y cyfle i ddefnyddio Llinell Iaith i gyfieithu'r cyfweliad.

Roedd y dull samplu a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfuno dewis rhifau drwy Ddeialu Digidau ar Hap (RDD) a defnyddio cwotas i reoli proffil y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg. Pennwyd cwotâu yn ôl rhanbarth yng Nghymru (pum rhanbarth), yn ôl rhyw ynghyd â statws gwaith, yn ôl band oedran ac yn ôl tarddiad ethnig yn seiliedig ar wybodaeth ddemograffig a gafwyd o Gyfrifiad 2001. Pennwyd y rhain i sicrhau y byddai'r sampl yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru yn ôl y ffactorau hyn.

Hybwyd cyfweliadau mewn ardaloedd lle roedd cyfran uwch o bobl o leiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth.

## Cymharu â'r Alban a Phrydain Fawr

Cymharwyd y canfyddiadau ag Arolwg 2006 o Agweddau Cymdeithasol yn yr Alban a'r archwiliad o ganfyddiadau a gynhaliwyd gan GfK NOP. Dylid nodi mai dim ond cymharu'n fras y gellir ei wneud am fod methodolegau gwahanol wedi'u defnyddio yn y ddau arolwg hyn. Felly, mae'n rhaid trin unrhyw debygolrwydd neu wahaniaeth rhwng canfyddiadau'r arolygon hyn a chanlyniadau arolwg y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru fel rhai dangosol yn hytrach na rhai absoliwt.